Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol
3 Hydref 2015 - Menywod mewn Busnes

**Yn bresennol:**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Christine Chapman AC (Cadeirydd)
Robin Lewis – Swyddog Cymorth Christine Chapman AC

**Siaradwyr**
Christine Atkinson Prifysgol De Cymru

**Astudiaethau achos**
Lesley Owen
Sarah Robinson
Sarah Rees

**Chwarae Teg**
Joy Kent
Christine O'Byrne
Eira Jepson
Anne Howells

**Partneriaid allanol**
Rachel Bowe – Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Helen Kane - Access Included
Dr Karen Gully GIG Cymru
Fran Smith Body Solutions
Melissa Wood WEN Cymru
Dawn Elliott ISA Training
Sian Price BT

**Ymddiheuriadau**
Janet Finch-Saunders AC
Simon Thomas AC
Gwenda Thomas AC
Eluned Parrott AC
Ruth Davies Ymddiriedolaeth GIG Cymru

**Croeso a Chyflwyniad gan y Cadeirydd**

Agorodd y cadeirydd y cyfarfod:

"Croeso, bawb, i chweched cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod yn yr Economi.

Mae'n dda gweld pobl o gynifer o sefydliadau gwahanol yma heddiw. Christine Chapman, Aelod Cynulliad Cwm Cynon ydw i a fi yw Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol hwn.

Bydd trafodaeth heddiw yn canolbwyntio ar fenywod mewn busnes. Byddwn yn ystyried diffyg cynrychiolaeth menywod ym myd busnes, ac yn edrych ar rai o'r rhwystrau a all atal cyfranogiad llawn. Byddwn hefyd yn gofyn sut y gallwn ni annog a chefnogi entrepreneuriaid benywaidd. Mae hyn yn dilyn ein trafodaethau blaenorol am faterion megis rhannu cyfrifoldebau gofalu yn anghyfartal, sut mae'r economi yn defnyddio sgiliau menywod, a rhwystrau sy'n gysylltiedig â'r gweithle. Yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd menywod yn chwarae rhan lawn yn yr economi er mwyn hybu twf economaidd - gwn y bydd y drafodaeth heddiw yn rhoi llawer o syniadau ac awgrymiadau i ni ynghylch sut gall hyn ddigwydd.

Heddiw, Christine Atkinson, Pennaeth y Hyb Entrepreneuriaeth Menywod ym Mhrifysgol De Cymru. Bydd Christine yn rhoi trosolwg o Fenter Merched Cymru a bydd yn sôn am y prosiect WAVE - Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi. Yna, cawn glywed gan dri entrepreneur - Lesley Owen o Fifi Stitch, Sarah Robinson o Brighter Communications, a Sarah Rees o Careers Women Wales

Am tua 13:20, bydd yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad adael i fynd i'r Cyfarfod Llawn. Mae croeso ichi barhau i drafod, ond byddaf yn rhoi'r awenau i Joy Kent o Chwarae Teg iddi hi gadeirio o hynny ymlaen.”

Cyn i mi wahodd Christine Atkinson i siarad, mae angen mynd trwy rai eitemau o fusnes arferol gan mai Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y grŵp hwn yw cyfarfod heddiw ac, yn unol â'r rheolau newydd ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol, mae angen cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol yn flynyddol.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Dosbarthwyd yr Adroddiad Blynyddol ac fe'i cymeradwywyd gan y grŵp. Cafodd Christine Chapman AC ei hail-ethol, a chafodd Christine O'Byrne hithau ei hail-ethol yn Ysgrifennydd

**Christine Atkinson, Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan Menter (Pennaeth Hyb Entrepreneuriaeth Menywod) Prifysgol De Cymru.**

Bydd copi o'r cyflwyniad yn cael ei ddosbarthu i bawb oedd yn bresennol.

Cefndir i Fenywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi (WAVE) - rhaglen dair blynedd (2012-2015) a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, ac a arweinir gan bartneriaeth rhwng Prifysgol De Cymru (Partner Arweiniol), Prifysgol Caerdydd, a Phrosiect Gweithdy'r Menywod: BAWSO

**Nod Wave-** mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru mewn cyflogaeth a hunangyflogaeth. Gwnaed hyn drwy weithgareddau cydberthynol a chanddynt dargedu, yn cynnwys cyflogwyr, gweithwyr, menywod hunangyflogedig a rhanddeiliaid cysylltiedig. Cymerodd pob un o'r partneriaid gyfrifoldeb am arwain gweithgareddau sy'n berthnasol i'w hamcanion a'u grwpiau targed penodol.

- Cymerodd dros 700 o ferched ran yn y gweithgareddau rhwydweithio a mentora
- Sefydlwyd 7 rhwydwaith newydd ar gyfer menywod yn benodol
- Sefydlwyd 3 chynllun mentora newydd ar gyfer menywod yn benodol
- Lansiwyd cynllun Llysgenhadon Menter Menywod
- Datblygwyd 5 cynllun dilyniant (datblygwyd cyrsiau newydd, achrededig a gynlluniwyd ar gyfer menywod) a 2 strategaeth ddysgu a datblygu.
- Cymerodd bron i 200 o fenywod ran mewn fersiynau peilot o'r cyrsiau newydd
- Dyfarnwyd cymwysterau i'r ymhell dros 100 o fenywod a gymerodd ran yn y cyrsiau peilot.
- Roedd eu hanner yn gymwysterau ôl-radd
- Cynorthwywyd 45 o gyflogwyr a gwnaeth 23 o gyflogwyr fabwysiadu neu wella strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth

**At ei gilydd, arweiniodd WAVE at**

- 9 astudiaeth ymchwil
- O ran entrepreneuriaeth, mae dynion yn fwy niferus na menywod o hyd, gan tua 2:1
- Ac mae llai fyth o fenywod yn rhedeg busnes aeddfed, sy'n dangos bod yr heriau sy'n eu hwynebu dros amser yn fwy o ran maint neu nifer
- Mae pob perchennog busnes yn wynebu heriau - mae'r daith o fod yn sylfaenydd i fod yn arweinydd yn golygu addasu i anghenion sy'n newid a datblygu sgiliau newydd
- O ystyried y ffaith mai menywod, yn gyffredinol, sy'n cymryd y prif gyfrifoldeb o ran y cartref a gofalu, mae'n anos iddynt gael cydbwysedd rhwng eu hymrwymiadau personol a busnes ac ymrwymiadau'r cartref
- Brwydro yn erbyn mythau, stereoteipiau a 'damcaniaethau tanberfformio' sy'n portreadu menywod a'u busnesau fel rhai 'llai llwyddiannus'

**O'r astudiaeth feintiol**

- Cynnydd yn nifer y menywod sy'n hunangyflogedig, yn enwedig yn yr ardaloedd Cydgyfeirio mwy trefol a lled-drefol
- Mae'r cynnydd yn nifer y menywod sy'n hunangyflogedig wedi helpu economi Cymru i ymdopi'n well ar ôl y dirwasgiad
- Mae incwm cyfartalog menywod hunangyflogedig (i'r rhai sy'n agored i dreth) yn parhau yn is yng Nghymru nag y mae mewn rhannau eraill o'r DU

- Mae mynediad at gyllid yn broblem o hyd ond gall agweddau negyddol menywod sy'n berchnogion busnes eu hunain at gyllid allanol hefyd effeithio ar allu busnesau i dyfu yn ôl yr angen
- Mae cyfalaf dynol a chymdeithasol yn deillio o sgiliau blaenorol, profiad, ac effaith rhwydweithiau menywod ar fenywod sy'n berchnogion busnes ac ar eu canfyddiadau ohonynt eu hunain a chanfyddiadau eraill ohonynt

**3 chanlyniad allweddol o'r astudiaeth ansoddol**

- Cymhellion - maent yn cynnwys ystyriaethau ynghylch cydbwysedd gwaith a bywyd ac effaith penderfyniadau busnes ym mhob maes
- Llwyddiant - nid o reidrwydd yn gyfystyr â mesurau traddodiadol fel ennill arian mawr, trosiant, neu broffidioldeb, ond gall eu bod yn ymwneud ag ymreolaeth, boddhad personol a'r rhyddid i arloesi
- Peidio â chael eu cymryd o ddifrif - ynghyd â sicrhau hygrededd, mae'r rhain yn sbarduno menywod tuag at hunangyflogaeth, ond maent hefyd yn effeithio ar eu profiad o hunangyflogaeth

**Goblygiadau Polisi**:

- O ran galwadau i annog mwy o fenywod i sefydlu a rhedeg eu busnesau eu hunain, mae'n bwysig canolbwyntio ar eu helpu i gyflawni eu potensial personol ac o ran busnes
- Mae angen codi ymwybyddiaeth fel y caiff menywod dod yn hunangyflogedig eu rhagrybuddio o'r cyfleoedd posibl, y bygythiadau, yr heriau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â gwahanol sectorau, gan gynnwys y rhai lle mae mwyafrif mawr o fenywod yn draddodiadol
- Mae angen ymyriadau wedi'u targedu sy'n rhyw benodol ac sy'n ymwybodol o rywedd i helpu menywod i ddechrau a datblygu eu busnesau ac i gefnogi eu datblygiad ymhellach, a'u mynediad at gymorth a rhwydweithiau busnes cyffredinol yn y brif ffrwd
- Hefyd, mae angen cynhyrchu a rhyddhau yn fwy rheolaidd ddata eilaidd wedi'i ddatgyfuno ar sail rhyw ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth er mwy cefnogi ymchwil, gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl rhywedd mewn perthynas ag entrepreneuriaid

**Lesley Owen - Fifi Stitch**

Lesley Owen ydw i. Rwy'n dod o'r Rhondda a myfi yw sylfaenydd ac artist Fifi Stitch, sef brand o dedis at ofynion unigol sy'n allforio yn rhyngwladol ers dwy flynedd bellach. Yn yr amser hwnnw, goresgynnais lawer o rwystrau, yn enwedig o ran hyder, cyn i mi ddechrau fy ngweld fy hunan yn entrepreneur go iawn.

Wedi ennill gradd Ffasiwn o Goleg Sir Gâr, a chwilfrydedd ynghylch entrepreneuriaeth yn rhan ohonof erioed, fy mwriad gwreiddiol oedd dechrau cwmni dillad, ond pan gafodd fy nai ei eni, cynlluniais, a gwneuthum, ei arth cyntaf, ac aeth hynny'n hobi annisgwyl na allwn ei stopio. Felly, o'r gwreiddiau hynny y tyfodd y brand, gan ddechrau gyda dim mwy na £10, a minnau'n raddedig heb yr un geiniog.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ar ôl rhai profiadau negyddol mewn cyflogaeth, ond yn datblygu seiliau cadarn i'r brand yr un pryd, roeddwn yn ddigon cysurus y byddai digon o alw am fy nghynnyrch imi roi cynnig arni a mynd yn hunangyflogedig.

Y rhwystrau a oresgynnwyd gan Lesley oedd diffyg hyder a  hunangred heb bresenoldeb modelau rôl y gallai hi ymdeimlo â hwy a heb gael ei hannog gan addysgwyr, teulu a ffrindiau i gymryd ei syniadau busnes o ddifrif. Cafodd hi'n anodd rhoi pris ar ei gwaith crefft ac fe'i tanbrisiodd oherwydd ei diffyg hyder a gwybodaeth am fusnes. Mae'n credu bod yr iaith busnes a ddefnyddir wrth gyfathrebu â phobl greadigol yn bwysig. - Mae hi'n dweud bod pobl greadigol ifanc yn meddwl fel artistiaid cyn troi eu bryd ar fusnes, ac mae llawer o fenywod ifanc yn cychwyn arni yn y sector creadigol heb fawr o opsiynau gyrfa fel arall. Byddai defnyddio iaith busnes fwy priodol wrth ymgysylltu yn ysbrydoli mwy o fenywod i ddechrau busnes creadigol llwyddiannus i gychwyn, a bod y gorau y gallant fod yn y marchnadoedd sy'n fenywaidd fwyaf, gan annog proffesiynoldeb newydd yn y sector crefftau'r un pryd.

Dywedodd cydweithiwr o ddyn wrthi na fyddai hi'n gallu tyfu ei busnes gan ei fod yn rhy "enethaidd", ac mae'n cael bod dynion mewn digwyddiadau rhwydweithio yn aml yn nawddoglyd tuag ati, a hyd yn oed pan fydd yn ceisio cymorth busnes mynediad, nid oeddent fel pe baent yn gwybod beth i'w wneud â hi.

Ymunodd Lesley â grwpiau rhwydweithio i ddatblygu cysylltiadau, ac mae hefyd yn aelod o fwrdd Made in the Valleys.  Mae'n awyddus i herio'r stereoteipiau sy'n wynebu menywod ifanc yn y diwydiannau creadigol, yn enwedig o ran hygrededd, ac mae am annog i fwy o fenywod ifanc sydd am ddechrau yn y diwydiant crefftau wneud hynny â hyder a phroffesiynoldeb, gan anelu at dwf.

**Sara Robinson**

Mae Brighter Communications bellach yn bedair oed.  Ei rheswm dros ddecrhau ei busnes ei hunan oedd hyblygrwydd, cymhelliant a hunanhyder. - Rhwystrau - dim cyflog am yr ychydig fisoedd cyntaf, llogi gweithiwr cyntaf -bellach mae'n cyflogi wyth o bobl a thîm a recriwtiwyd ganddi hi ei hun, and mae'n betrus iawn am gael unrhyw gyllid.  Ariannodd ei thystysgrif ôl-radd ei hun, ac roedd ganddi hyfforddwr a'i hanogai i anelu'n uchel.  Mae mentora a hyfforddiant yn amlycach o ran cael cynllun.

**Sara Rees - Careers Women Wales**

O fryd entrepreneuraidd erioed a gweld syniadau da yn dod yn broffidiol.
Cafodd ei diswyddo pan oedd ar gyfnod mamolaeth, cafodd fwrsari cymorth busnes o chwe mis gan Chwarae Teg a oedd yn caniatáu iddi ddilyn ei breuddwyd.  Mae gofal plant yn parhau i fod yn rhwystr mawr. Ymunodd ag Espire - rhaglen mentora yn gweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector - Mae fy musnes yn helpu menywod i benderfynu beth byddent am ei wneud yn eu bywyd gwaith ac mae'n canolbwyntio ar waith/swyddi rhan amser i'w helpu i ddatblygu eu hunain. Cafodd Sarah £60.00 yr wythnos trwy ACT Training, sydd hefyd yn helpu gyda chynllun busnes beth bynnag yw eich galwedigaeth ac mae'n defnyddio ieithwedd menywod hefyd.

Diolchodd Christine Chapman i'r siaradwyr a gofynnodd am gwestiynau gan y rhai oedd yn bresennol.

**Rachel Bowen FSB** - Cytunodd â'r siaradwyr fod angen am fentora - mentora menywod busnes/cyffredinol a'i deilwra i'r hyn sydd ei eisiau arnynt - tyfu busnes, rhaid bod yn ymwybodol nad yw pob menyw am dyfu ei busnes, mae hyblygrwydd yn bwysicach i rai menywod nag y mae'r arian.

Cafwyd trafodaeth fywiog a'r argymhellion i fwrw ymlaen â hwy yw:

- Modelau Rôl
- Ymwybyddiaeth Rhywedd
- Egluro lle mae cymorth ar gael ym mhob cam
- Darparu cyfleoedd rhwydweithio a mentora
- Cymryd y cam nesaf, h.y. o fod yn therapydd i redeg gweithdai
- Jyglo bywyd cartref
- Risg o beidio â gweithio gartref; nid yw pob cartref yn addas ar gyfer y gwaith y mae menywod am ei wneud.
- Ardaloedd difreintiedig - gallai'r siopau fod yn llawn menywod sydd am sefydlu eu busnes eu hunain - byddai hyn hefyd yn gwella cymunedau.
- Gweithio ar sail gydweithredol, trafod y brydles â'r landlord i'ch galluogi i isosod i fenywod eraill.
- Chwalu'r myth yr aed i'r afael â chymorth busnes.
- Yr astudiaethau busnes sy'n cael eu dysgu mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Disgrifiad o'r cyrsiau a deunyddiau ysgrifenedig.
- Modelau rôl mewn Prifysgolion - cydweithwyr gwrywaidd i newid eu ffordd o ddysgu a sut mae defnyddiau yn cael eu datblygu.
- Gofal plant - mae newidiadau yn y teulu yn golygu na allent fynd i gyfarfodydd brecwast i rwydweithio.

**Cyfarfod Nesaf 3 Chwefror 2016 - "Camau Nesaf"**